



Animal &
Plant Health
Agency

Diweddaru Ffioedd Ardystio Hadau yng Nghymru a Lloegr

Papur Gwybodaeth

17 Hydref 2022

Cyflwyniad

Mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU i godi tâl am lawer o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n gyhoeddus. Y dull safonol yw pennu ffioedd i adennill costau cyflenwi gwasanaethau yn llawn ac adolygu'r ffioedd hyn yn rheolaidd (naill ai bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, yn ôl yr angen) i ryddhau'r trethdalwr o gostau, fel eu bod yn cael eu hysgwyddo'n briodol gan ddefnyddwyr sy'n elwa o wasanaeth. Mae hyn yn caniatáu dosbarthu adnoddau cyhoeddus yn fwy teg ac yn galluogi llai o fenthycia a gwariant cyhoeddus.

Mae gwasanaethau Amrywogaethau Planhigion a Hadau, gan gynnwys ardystio hadau, yn gweithredu yn unol â'r egwyddor hon o adennill costau llawn. Am amrywiol resymau, nid yw ffioedd ardystio hadau wedi cael eu hadolygu ers 2014. Felly, yn unol â pholisi'r llywodraeth, rhaid addasu'r ffioedd er mwyn sicrhau na fydd gormod neu ddim digon o gostau'n cael eu hadennill (Rheoli Arian Cyhoeddus, Trysorlys EM, Mawrth 2022).

Mae'r newidiadau hyn yn fesurau ar unwaith i sicrhau bod costau llawn y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu hadlewyrchu yn y ffioedd. Bwriedir cynnal adolygiad ehangach o ffioedd ardystio hadau yng Nghymru a Lloegr yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn ystyried y newidiadau pellgyrhaeddol i'r gwasanaeth hwn. Bydd ffioedd ardystio hadau hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd (naill ai bob blwyddyn neu bob dwy flynedd yn ôl yr angen) i sicrhau bod y ffioedd yn dal i adlewyrchu costau cyflenwi gwasanaeth.

Daw'r newidiadau i rym o 9 Ionawr 2023.

Newidiadau i Ffioedd Ardystio Hadau

Proses sicrhau ansawdd statudol yw ardystio hadau, sy'n sicrhau bod hadau'n ddigon pur, iach, hyfyw ac wedi'u labelu'n gywir. Rhaid i'r canlynol fod yn berthnasol i hadau sy'n cael eu marchnata:

- wedi'u hardystio yn unol â gofynion deddfwriaethol,
- wedi'u cynhyrchu drwy system gynhyrchu wedi'i diffinio, sy'n bodloni safonau ansawdd penodedig,
- ac wedi'u pecynnu, eu labelu a'u selio'n gywir.

Yng Nghymru a Lloegr, APHA sy'n gweinyddu'r gwasanaeth hwn ar ran Defra a Llywodraeth Cymru.

Rheoleiddir y broses o farchnata hadau'r prif rywogaethau amaethyddol a llyisiau yn Lloegr gan [Reoliadau Marchnata Hadau 2011](#) (Lloegr) ac yng Nghymru gan [Reoliadau Marchnata Hadau \(Cymru\) 2012](#), a darperir, yn [Rheoliad 29](#) – “Caiff yr Ysgrifennydd

Gwladol godi ffi resymol am unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn” a “Caiff Gweinidogion Cymru godi ffi resymol am unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn” yn y drefn honno.

Mae APHA wedi diweddarau ffioedd ar gyfer gweithgareddau y gellir codi tâl amdanynt a ffioedd cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau marchnata hadau. Mae'r ffioedd presennol yn creu cymhorthdal i ddefnyddwyr y gwasanaeth a chost i'r trethdalwr, ac yn mynnu bod y llywodraeth yn ymyrryd er mwyn adennill y gost yn llawn (FCR). Amcan y polisi hwn yw dileu'r cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau statudol marchnata hadau. Yr effaith a fwriedir yw defnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithlon drwy drosglwyddo cost lawn darparu gwasanaethau oddi ar y trethdalwr cyffredinol i'r rhai sy'n cael budd uniongyrchol o'r gwasanaeth (cwmnïau hadau) a symud tuag at FCR, yn unol â pholisi'r llywodraeth (Rheoli Arian Cyhoeddus, Trysorlys EM, Mawrth 2022).

Mae'r costau cyflenwi gwasanaethau ardystio hadau canlynol wedi'u cynnwys yn y diweddariad i'r ffioedd ardystio hadau i ryddhau'r trethdalwr cyffredinol o gostau fel eu bod yn cael eu hysgwyddo'n briodol gan ddefnyddwyr sy'n elwa o wasanaeth, gan ganiatáu dosbarthu adnoddau cyhoeddus yn decach a llai o fenthyca a gwariant cyhoeddus:

- **Rhaglen Hadau Electronig (ESP) IBM** - Y [system ymgeisio ar-lein](#) ar gyfer gwasanaethau ardystio hadau (gweler Tabl 1 a Tabl 2).
- **Cost sampl rheoli** – Cost samplau rheoli (Yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau (PHSI) a'r Orsaf Swyddogol ar gyfer Profi Hadau (OSTS)) (gweler Tabl 5 a Thabl 6).
- **Gwaith archwilio hadau** – PHSI sy'n gwneud gwaith archwilio hadau ar ran Defra a Llywodraeth Cymru. Mae PHSI yn archwilio samplwyr hadau trwyddedig mewn cwmnïau hadau i sicrhau eu bod yn gwneud eu gwaith yn gywir (gweler Tabl 5 a Thabl 6).

Gan fod nifer y gweithgareddau y gellir codi tâl amdanynt wrth Ardystio Hadau yn statig, mae swmp 2021 wedi cael ei ddefnyddio ym mhob cyfrifiad drwy'r ddogfen i ragfynegi swmp disgwylidig y gwaith yn 2022, er mwyn adennill costau cyflenwi gwasanaethau yn llawn.

Tabl 1. Costau Blynyddol ESP gan IBM

Cyfrifir y pris fesul trafodiad drwy rannu costau blynyddol ESP IBM â chyfanswm nifer y trafodiadau ESP y flwyddyn. Mae'r pris fesul trafodiad yn cael ei ddwyn ar draws i dabl 6 i gyfrifo cyfanswm costau gweinyddu ar gyfer cofnodi cnydau ac i dabl 8 i gyfrifo cyfanswm costau gweinyddu ar gyfer ffioedd lotiau hadau.

	Costau IBM ESP
Costau Blynyddol ESP gan IBM	£271,303
Nifer y Trafodiadau ESP y flwyddyn	44910
Pris Fesul Trafodiad (Costau Blynyddol EESP gan IBM / Nifer y Trafodiadau ESP)	£6.04

Tabl 2. Costau Cynnal a Chadw ESP bob blwyddyn gan NIAB

Cyfrifir y pris fesul trafodiad drwy rannu cost cynnal a chadw blynyddol ESP gan NIAB â chyfanswm nifer y trafodiadau ESP y flwyddyn. Mae'r pris fesul trafodiad yn cael ei ddwyn ar draws i dabl 6 i gyfrifo cyfanswm costau gweinyddu ar gyfer cofnodi cnydau ac i dabl 8 i gyfrifo cyfanswm costau gweinyddu ar gyfer ffioedd lotiau hadau.

	Costau ESP
Cost ESP o Gontract NIAB	£41,280
Nifer y Trafodiadau ESP	44910
Pris Fesul Trafodiad (Cost ESP o Gontract NIAB / Nifer y Trafodiadau ESP)	£0.92

Tabl 3. Costau Staff APHA

Mae costau staff ar gyfer APHA yn seiliedig ar gyfraddau codi tâl cymeradwy APHA Trysorlys Ei Fawrhydi. Cyfrifir cost yr uned drwy rannu cyfanswm cost staff APHA â chyfanswm y swmp am y flwyddyn. Mae cost yr uned yn cael ei ddwyn ar draws i dabl 6 i gyfrifo cyfanswm costau gweinyddu ar gyfer cofnodi cnydau ac i dabl 8 i gyfrifo cyfanswm costau gweinyddu ar gyfer ffioedd lotiau hadau.

Ardal Waith Staff APHA	Cyfanswm Cost	Swmp	Cost Uned (Cost / Swmp)
Cofnodi Cnydau CI	£79,906	16200	£4.93
Cofnodi Cnydau PB/B	£39,953	1400	£28.54
Cofnodi Cnydau Dros Dro PB/B	£26,635	400	£66.59
Ffi Lotiau Hadau CI	£79,906	24258	£3.29
Ffi Lotiau Hadau PB/B	£39,953	2652	£15.07

Tabl 4. Amser a Chostau Archwilio Cnydau PHSI

Mae'r gost ar gyfer PHSI yn seiliedig ar gyfraddau codi ffioedd cymeradwy APHA Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer y graddau perthnasol wedi'u lluosu â'r amser archwilio. Cyfrifir y gost fesul cnwd drwy rannu cyfanswm y gost â chyfanswm nifer y cnydau a archwilir bob blwyddyn. Mae'r gost fesul cnwd yn cael ei dwyn drosodd i dabl 6 i gyfrifo cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer cofnodi cnydau.

	Costau Archwilio Cnydau PHSI
Cyfanswm y Costau	£156,084
Cyfanswm y Cnydau	671
Cost Fesul Cnwd (Cyfanswm y Costau / Cyfanswm Cnydau)	£233

Tabl 5. Contract Gwasanaethau Technegol (TSC) NIAB Lot 6 Costau ac Amser PHSI ar gyfer cymryd Samplau Rheoli Pro-Rata dros TSC NIAB Lot 5 Ffioedd Lotiau Hadau

Mae'r gost ar gyfer PHSI yn seiliedig ar gyfraddau codi ffioedd cymeradwy APHA Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer y graddau perthnasol wedi'u lluosu â'r amser archwilio. Mae Cyfanswm Llwytho Lot 6 yn cael ei ddwyn drosodd i dabl 8 i gyfrifo cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer ffioedd lot hadau.

Yn dilyn proses dendro gystadleuol a gynhaliwyd yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ymrwymodd Ysgrifennydd Gwladol Defra a Llywodraeth Cymru i gytundeb gyda NIAB i ddarparu gwasanaethau ardystio hadau yng Nghymru a Lloegr yn unol â'r TSC. Nodir ffioedd NIAB yn y TSC o dan Lot 5 ("Contract ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Ardystio Hadau yng Nghymru a Lloegr") a Lot 6 ("Contract ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Profi Hadau yng Nghymru a Lloegr").

	Pris a godir gan NIAB	Swmp	Cyfanswm (Pris a godir gan NIAB x Swmp)	Swmp Ardystiad 7	Cost Uned (Cyfanswm / Swmp Ardystiad 7)
Sampl Neilltuo Pris NIAB	£142.42	622	£88,585	13410	£6.61
Sampl PHSI Pris NIAB	£142.42	440	£62,665	13410	£4.67
Cost/Sampl PHSI	£343.91	440	£151,321	13410	£11.28
Hyfforddiant PHSI	£7,500.00	1	£7,500	13410	£0.56
Cyfanswm Llwytho'r Sampl Rheoli			£310,071	13410	£23.12
Lot 6 Costau ac amser PHSI a dreuliwyd ar Waith Gorfodi Hadau			£151,321	13410	£11.28
Cyfanswm Lot 6 - Llwytho i'w roi ar waith (Cyfanswm Costau Llwytho'r Sampl Rheoli a Chyfanswm Cost PHSI)					£34.41 (£23.12 + £11.28)

Tabl 6. Costau Gweinyddu ar gyfer Cofnodi Cnydau

Mae'r tabl yn dangos cyfanswm costau gweinyddu 'Cofnodi Cnydau CS C1 C2 C3', 'Cofnodi Cnydau PB/B', a 'Chofnodi Cnydau PB/B Dros Dro' fel y'u cyfrifir gan ddefnyddio costau cofnodi cnydau unigol wedi'u lluosu â swmp, gan gynnwys Costau IBM ESP (gweler Tabl 1), Costau ESP (gweler Tabl 2), Costau Staff APHA (gweler Tabl 3), Amser Arolygydd PHSI (gweler Tabl 4), a chostau gosod NIAB, fel y nodir yn TSC*. Mae cyfanswm y costau ar gyfer 'Cofnodi Cnydau CS C1 C2 C3', 'Cofnodi Cnydau PB/B', a 'Chofnodi Cnydau PB/B Dros Dro' yn cael eu dwyn ar draws i dabl 7 i bennu cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer gwasanaethau cofnodi cnydau.

	Cam Gweithredu	Cost	Swmp	Cyfanswm Costau Gweinyddu (Cost x Swmp)
Cofnodi Cnydau CS C1 C2 C3	Costau IBM ESP (Gweler Tabl 1)	£6.04	16200	£97,865
	Costau ESP (Gweler Tabl 2)	£0.92	16200	£14,891
	Costau Staff APHA (Gweler Tabl 3)	£4.93	16200	£79,906
	Amser Arolygydd PHSI (Gweler Tabl 4)	£233.00	299	£69,552
	Gwirio Archwiliadau*	£374.10	126	£47,137
	Plotiau Rheoli*	£85.09	2400	£204,216
	Gwirio Papur Ardystiad 3*	£6.24	1045	£6,521
	Cofnodion Cnydau Hadau (Ardystiad 2)*	£6.24	8100	£50,544
	Cofnodion Ardystiad 3*	£6.24	8100	£50,544
Cyfanswm				£621,175
Cofnodi cnydau PB/B	Costau IBM ESP (Gweler Tabl 1)	£6.04	1400	£8,457
	Costau ESP (Gweler Tabl 2)	£0.92	1400	£1,287
	Costau Staff APHA (Gweler Tabl 3)	£28.54	1400	£39,953
	Amser Arolygydd PHSI (Gweler Tabl 4)	£233.00	370	£86,067
	Ffi Weinyddol ar gyfer Cnydau PHSI*	£121.78	370	£45,059
	Archwiliadau Swyddogol*	£374.10	330	£123,453
	Plotiau Rheoli*	£85.09	700	£59,563
	Gwirio Papur Ardystiad 3*	£6.24	700	£4,368
	Cofnodion Cnydau Hadau (Ardystiad 2)*	£6.24	700	£4,368
Cofnodion Ardystiad 3*	£6.24	700	£4,368	
Cyfanswm				£376,943
Cofnodi Cnydau PB/B Dros Dro	Costau IBM ESP (Gweler Tabl 1)	£6.04	400	£2,416
	Costau ESP (Gweler Tabl 2)	£0.89	400	£368

Costau Staff APHA (Gweler Tabl 3)	£66.59	400	£26,635
Amser Arolygydd PHSI (Gweler Tabl 4)	£233.00	2	£465
Ffi Weinyddol ar gyfer Cnydau PHSI*	£121.78	2	£244
Archwiliadau Gwirio Swyddogol*	£374.10	23	£8,604
Plotiau Rheoli*	£85.09	200	£17,018
Gwirio Papur Ardystiad 3*	£6.24	200	£1,248
Cofnodion Cnydau Hadau (Ardystiad 2)*	£6.24	200	£1,248
Cofnodion Ardystiad 3*	£6.24	200	£1,248
Cyfanswm			£59,495

Tabl 7. Cyfanswm Costau Gweinyddu ac Incwm Cyfredol ar gyfer Cofnodi Cnydau

Mae'r tabl yn dangos cyfanswm yr incwm cyfredol o ffioedd ar gyfer cofnodi cnydau fel y'i cyfrifir gan ddefnyddio'r ffi gyfartalog gyfredol ar gyfer pob categori wedi'i lluosu â'r swmp. Mae cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer gwasanaethau cofnodi cnydau yn uwch na'r incwm ar sail ffioedd cyfartalog cyfredol. Felly, mae APHA yn tan-adennill costau cofnodi cnydau.

	Categori	Ffi Gyfartalog Gyfredol	Cyfanswm Swmp Ha	Incwm Ffi Gyfredol (Ffi Gyfartalog Gyfredol x Cyfanswm Swmp Ha)	Cyfanswm Costau Gweinyddu
Cofnodi Cnydau	CS C1 C2 C3	£4.80	76553	£367,454	£621,175
	PB/B	£60.60	4681	£283,669	£376,943
	PB/B Dros Dro	£16.00	1216	£19,456	£59,495
Cyfanswm				£670,579	£1,057,612

Tabl 8. Costau Gweinyddu ar gyfer Ffioedd Lotiau Hadau

Mae'r tabl yn dangos cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer 'Ffi Lotiau Hadau CS C1 C2 C3' a 'Ffi Lotiau Hadau PB/B' fel y'u cyfrifir gan ddefnyddio costau ffi lotiau hadau unigol wedi'u lluosio â swmp, gan gynnwys Costau IBM ESP (gweler Tabl 1), Costau ESP (gweler Tabl 2), Costau Staff APHA (gweler Tabl 3), Lot 6 Llwytho (gweler Tabl 5 a Thabl 6), a chostau gosod NIAB, fel y nodir yn y TSC*. Mae cyfanswm y costau ar gyfer "Ffi Lotiau Hadau CS C1 C2 C3" a 'Ffi Lotiau Hadau PB/B' yn cael eu dwyn ar draws i dabl 9 i bennu cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer gwasanaethau lotiau hadau.

	Cam Gweithredu	Cost	Swmp	Cyfanswm Costau Gweinyddu (Cost x Swmp)
Ffi Lotiau Hadau CS C1 C2 C3	Costau IBM ESP (Gweler Tabl 1)	£6.04	24258	£146,543
	Costau ESP (Gweler Tabl 2)	£0.92	24258	£22,297
	Costau Staff APHA (Gweler Tabl 3)	£3.29	24258	£79,906
	Lot 6 Llwytho (Gweler Tabl 5)	£34.41	12258	£421,755
	Cynyddu Cnydau Ardystiad 4 *	£6.24	1200	£7,488
	Adroddiad Prawf Hadau Ardystiad 10 *	£6.24	10800	£67,392
	Cyflwyno Adroddiad Prawf Ardystiad 7 *	£6.24	12258	£76,490
Cyfanswm				£821,872
Ffi Lotiau Hadau PB/B	Costau IBM ESP (Gweler Tabl 1)	£6.04	2652	£16,021
	Costau ESP (Gweler Tabl 2)	£0.92	2652	£2,438
	Costau Staff APHA (Gweler Tabl 3)	£15.07	2652	£39,953
	Lot 6 Llwytho (Gweler Tabl 5)	£34.41	1152	£39,640
	Cynyddu Cnydau Ardystiad 4 *	£6.24	300	£1,872
	Adroddiad Prawf Hadau Ardystiad 10 *	£6.24	1200	£7,488
	Cyflwyno Adroddiad Prawf Ardystiad 7 *	£6.24	1152	£7,188
Cyfanswm				£114,596

Tabl 9. Cyfanswm Costau Gweinyddu ac Incwm Cyfredol ar gyfer Ffioedd Lotiau Hadau

Mae'r tabl yn dangos cyfanswm yr incwm cyfredol o ffioedd ar gyfer ffioedd lotiau hadau fel y'i cyfrifir gan ddefnyddio'r ffi gyfartalog gyfredol ar gyfer pob categori wedi'i lluosio â'r swmp. Mae cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer gwasanaethau ffi lotiau hadau yn uwch na'r incwm ar sail ffioedd cyfartalog cyfredol. Felly, mae APHA yn tan-adennill costau ffi'r lotiau hadau.

	Categori	Ffi Gyfartalog Gyfredol	Cyfanswm y swmp	Incwm Ffi Gyfredol (Ffi Gyfartalog Gyfredol x Cyfanswm Swmp Ha)	Cyfanswm Costau Gweinyddu
Ffi Lotiau Hadau	CS C1 C2 C3	£34.80	12258	£426,578	£821,872
	PB/B	£156.00	1152	£179,712	£114,596
Cyfanswm				£606,290	£936,468

Tabl 10. Cyfanswm Costau Gweinyddu Ardystio Hadau yn erbyn yr Incwm Cyfredol

Mae Tabl 10 yn dangos cyfanswm costau gweinyddu ar gyfer ardystio hadau (£1,994,081) yn erbyn yr incwm cyfredol (£1,276,869). Mae cyfanswm y costau gweinyddu ar gyfer ardystio hadau yn uwch na'r incwm ar sail ffioedd cyfartalog cyfredol. Felly, mae APHA yn tan-adennill costau ffi'r lotiau hadau. Er mwyn pennu ffioedd i adennill costau cyflenwi'r gwasanaeth yn llawn, rhaid cynyddu'r ffioedd cyfredol 56%.

	Incwm o'r Ffi Gyfredol	Cyfanswm y Costau Gweinyddu i APHA
Cyfanswm Cofnodi Cnydau	£670,579	£1,057,612
Cyfanswm Ffi Lotiau Hadau	£606,290	£936,468
Cyfanswm	£1,276,869	£1,994,081
Tan-adennill		£717,212
Canran y cynnydd sydd ei angen ar gyfer FCR ((£717,212 / £1,276,869) x 100)		56%

Tabl 11. Newidiadau i ffioedd ymgeisio ar-lein

I nodi bod y ffi ar gyfer ceisiadau ar-lein yn is na'r ffi ar gyfer ceisiadau papur.

	Y ffi ar-lein ar hyn o bryd	Y ffi ar-lein newydd	% Cynnydd
FFI COFNODI CNYDAU	Fesul Hectar	Fesul Hectar	
Archwiliad trwyddedig (ac eithrio llusoi cynnar a chnydau a gofnodir yn hwyr) (CS, C1, C2 a C3)	£4.50	£7.03	56%
Archwiliadau Swyddogol Cyn-Sylfaenol, Sylfaenol, llusoi cynnar a chnydau a gofnodir yn hwyr	Fesul Hectar	Fesul Hectar	
Ydau, Corbys, Had llin a Phorfeydd (un archwiliad) Nodyn: Codir ffi swyddogol is pan fydd cnwd PB neu B yn cael ei archwilio'n swyddogol gan arolygydd Trwyddedig	£60.00	£93.70	56%
Betys, Rêp Had Olew, Mwstard, Rêp Porthiant, Betys a Chêl (dau archwiliad)	£95.00	£148.36	56%
Rêp hybrid (tri archwiliad)	£130.00	£203.02	56%
Archwiliad swyddogol ychwanegol, pob rhywogaeth	£35.00	£54.66	56%
Arbrawf Dros Dro Pob Cnwd	£16.00	£24.99	56%
FFI LOTIAU HADAU	Fesul lot hadau	Fesul lot hadau	
Ffi lotiau hadau: cenhedlaeth derfynol (gan gynnwys ail-broffion) 2H, 2L, CH, CL, C2 a C3 (pan fo'n berthnasol)	£34.00	£53.10	56%
Ffi lotiau hadau: lotiau hadau llusoi PB, B, 1H, 1L, C1, C2 (gan gynnwys ail-broffion)	£155.00	£242.06	56%

Tabl 12. Newidiadau i ffioedd ceisiadau papur.

I nodi bod y ffi ar gyfer ceisiadau ar-lein yn is na'r ffi ar gyfer ceisiadau papur.

	Ffi papur ar hyn o bryd	Ffi papur newydd	% Cynnydd
FFI COFNODI CNYDAU	Fesul Hectar	Fesul Hectar	
Archwiliad trwyddedig (ac eithrio llusci cynnar a chnydau a gofnodir yn hwyr) (CS, C1, C2 a C3)	£5.50	£8.59	56%
Archwiliadau Swyddogol Cyn-Sylfaenol, Sylfaenol, llusci cynnar a chnydau a gofnodir yn hwyr	Fesul Hectar	Fesul Hectar	
Ydau, Corbys, Had Ilin a Phorfeydd (un archwiliad) Nodyn: Codir ffi swyddogol is pan fydd cnwd PB neu B yn cael ei archwilio'n swyddogol gan arolygydd Trwyddedig	£62.00	£96.83	56%
Betys, Rêp Had Olew, Mwstard, Rêp Porthiant, Betys a Chêl (dau archwiliad)	£97.00	£151.48	56%
Rêp hybrid (tri archwiliad)	£132.00	£206.14	56%
Archwiliad swyddogol ychwanegol, pob rhywogaeth	£35.00	£54.66	56%
Arbrawf Dros Dro Pob Cnwd	£16.00	£24.99	56%
FFI LOTIAU HADAU	Fesul lot hadau	Fesul lot hadau	
Ffi lotiau hadau: cenhedlaeth derfynol (gan gynnwys ail-broffion) 2H, 2L, CH, CL, C2 a C3 (pan fo'n berthnasol)	£42.00	£65.59	56%
Ffi lotiau hadau: lotiau hadau llusci PB, B, 1H, 1L, C1, C2 (gan gynnwys ail-broffion)	£165.00	£257.68	56%

Tabl 13. Newidiadau i Brisiau Profi Hadau NIAB, ffioedd hyfforddi a phroffion ISTA

Mae'r ffi archwilio flynyddol ar gyfer yr Orsaf Drwyddedig ar gyfer Profi Hadau (LSTS) yn cael ei chodi gan NIAB o dan y TSC. Caiff anfonebau eu hanfon at APHA gan NIAB pan fydd yr archwiliadau unigol yn cael eu cynnal. Mae APHA yn codi ffi flynyddol ar bob LSTS ym mis Mehefin i dalu am Archwiliadau yn y flwyddyn hadau sydd i ddod (Gorffennaf - Mehefin).

	Ffi Gyfredol	Ffi Newydd	% Cynnydd
Ffi Flynyddol LSTS	£1,745.00	£2,144.50	22.9%
Hyfforddiant ac arholiad ar gyfer samplwyr trwyddedig newydd	£650.00	£670.80	3.2%
Dadansoddwr hadau trwyddedig - Tystysgrif Medrusrwydd Sylfaenol	£4,654.05	£4,802.98	3.2%
Dadansoddwr hadau trwyddedig - Categoriâu profi ychwanegol	£2,719.75	£2,806.78	3.2%
Dadansoddwr hadau trwyddedig - Rheoli Labordy	£3,293.60	£3,399.00	3.2%
Tystysgrif Ryngwladol - Oren (OIC)	£140.00	£144.48	3.2%
Tystysgrif Ryngwladol - Glas (BIC)	£140.00	£144.48	3.2%

Gweithgareddau sy'n dod o dan y ffi ym mhob categori

Ffi Cofnodi Cnydau: Archwiliad Trwyddedig

Yn berthnasol i'r canlynol:

Cnydau a gofnodwyd i gynhyrchu hadau CS, C1, C2 neu C3, ac eithrio amrywogaethau llusosi cynnar a chnydau a heuwyd gyda lotiau hadau'n cael eu derbyn fel rhai a gofnodwyd yn hwyr.

Cnydau a gofnodir i gynhyrchu hadau amrywogaethau heb eu rhestru o dan awdurdodiad gan APHA oni bai y'u cofnodir yn benodol i gynhyrchu hadau cyn-sylfaenol neu sylfaenol.

Yr holl gnydau sydd wedi'u cofnodi yn yr arbrawf dros dro.

Costau penodol:

Trin data ar gyfer cofnodi cnydau ac adroddiadau archwilio cnydau.

Monitro arolygwyr cnydau trwyddedig drwy archwiliadau gwirio (caiff 5% o'r cnydau a archwilir gan staff trwyddedig eu gwirio gan swyddogion).

Hyfforddi arolygwyr swyddogol i gynnal archwiliadau gwirio.

Costau wedi'u dyrannu'n gymesur ar gyfer ffioedd cofnodi cnydau a lotiau hadau:

Cynnal a chadw data am bedigri hadau a chofnodion ardystio.

Gweinyddu amrywogaethau a hadau.

Archwiliadau cwmni PHSI

Ffi Cofnodi Cnydau: Archwiliad Swyddogol

Yn berthnasol i'r canlynol:

Pob cnwd a gofnodir i gynhyrchu hadau cyn-sylfaenol a sylfaenol. Os yw cnydau PB neu B i gael eu harchwilio'n swyddogol gan arolygydd Trwyddedig, dylech gysylltu â NIAB.

Holl gnydau amrywogaethau llusosi cynnar ac wedi'u hau gyda lotiau hadau wedi eu cofnodi'n hwyr.

Costau penodol:

Trin data ar gyfer cofnodi cnydau ac adroddiadau archwilio cnydau.

Archwiliad swyddogol (ffi uwch am rywogaethau y mae angen dau neu dri archwiliad arnynt).

Cyflwyno'r adroddiad archwilio swyddogol.

Hyfforddi arolygwyr swyddogol i gynnal archwiliadau swyddogol.

Plotiau rheoli hadau bridwr (wedi'u dyrannu ar draws yr holl gnydau sy'n cael eu harchwilio'n swyddogol).

Costau wedi'u dyrannu'n gymesur ar gyfer ffioedd cofnodi cnydau a lotiau hadau:
Yn yr un modd â 'Ffi cofnodi cnydau: archwiliadau trwyddedig' uchod.

Ffi ychwanegol am Archwiliad Swyddogol

Yn berthnasol i'r canlynol:

Archwiliadau swyddogol ychwanegol y gofynnodd yr ymgeisydd amdanynt pan fethodd archwiliad swyddogol cynharach y cnwd yn y categori y cafodd ei gofnodi ynddo a phan fydd yr ymgeisydd wedi cymryd camau adfer.

Costau penodol:

Trefnu a chynnal archwiliad swyddogol ychwanegol.

Cyflwyno'r adroddiad archwilio swyddogol.

Hyfforddi arolygwyr swyddogol i gynnal archwiliadau swyddogol.

Costau wedi'u dyrannu'n gymesur ar gyfer ffioedd cofnodi cnydau a lotiau hadau:
Yn yr un modd â 'Ffi cofnodi cnydau: archwiliadau trwyddedig' uchod.

Ffi Lotiau Hadau: Y genhedlaeth derfynol

Yn berthnasol i'r canlynol:

Lotiau hadau'r genhedlaeth derfynol sy'n cael eu marchnata i dyfu cnwd masnachol.

Lotiau hadau llusoi sydd eisoes wedi'u hardystio yn cael eu hail-gofnodi mewn categori newydd.

Costau penodol:

Trin data ar gyfer adroddiad prawf hadau a chyflwyno adroddiad prawf hadau.

Ôl-reoli hadau'r genhedlaeth derfynol (caiff 5% o lotiau hadau'r genhedlaeth derfynol eu tyfu mewn plotiau ôl-reoli i fonitro ansawdd).

Monitro LSTSs drwy brofi cyfrannau wrth gefn (caiff profion swyddogol eu cynnal ar 5% o'r samplau sy'n cael eu profi gan LSTSs).

Costau wedi'u dyrannu'n gymesur ar gyfer ffioedd cofnodi cnydau a lotiau hadau:
Yn yr un modd â 'Ffi cofnodi cnydau: archwiliadau trwyddedig' uchod.

Ffi Lotiau Hadau: Lotiau hadau llusoi

Yn berthnasol i'r canlynol:

Yr holl lotiau hadau sydd wedi'u hardystio yng Nghymru a Lloegr ac wedi'u cofnodi ar gyfer llusoi pellach. Mae'r ffi hon bellach yn cynnwys lotiau hadau barlys hybrid.

Mae'r lotiau hadau cenhedlaeth derfynol sydd eisoes wedi'u hardystio yn cael eu hail-gofnodi ar gyfer llusoi pellach.

Costau penodol:

Trin data ar gyfer adroddiad prawf hadau a chyflwyno adroddiad prawf hadau.
Plot rheoli.

Monitro LSTSs drwy brofi cyfrannau wrth gefn (caiff profion swyddogol eu cynnal ar 5% o'r samplau sy'n cael eu profi gan LSTSs).

Costau wedi'u dyrannu'n gymesur ar gyfer ffioedd cofnodi cnydau a lotiau hadau:
Yn yr un modd â 'Ffi cofnodi cnydau: archwiliadau trwyddedig' uchod.

Ffi Flynyddol y Drwydded LSTS

Rheoli LSTSs gan gynnwys adroddiadau ac archwiliadau blynyddol.

Ailasesu dadansoddwyr hadau.

Diweddarau a darparu papurau technegol.

Dilyn canlyniadau'r cyfrannau wrth gefn.

Cyngor arferol.



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:
seed.cert@apha.gov.uk